BWLETIN YGC 24

Rhifyn 24 - Rhagfyr 2023











'Ymgynghoriaeth Gwynedd Chi'

CROESO I RIFYN 24

Tudalen

3 : Pont i gerddwyr a seiclwyr dros Afon Hafren Y Drenewydd
4 : Tîm Datblygu Busnes PP/YGC
5 - 6 : Prosiect Dolgau A487 Ceredigion
7 : Llwyddiant - Gwobrau TechFest 2023
8: Gwobrau CIHT Cymru Wales 2023
9 - 10 : Agoriad Swyddogol Pont Bryn Llesdair a Phrosiect Cei Aberdyfi
11 -12 : Llwyddiant - Gareth Whitten 'Engieering Council - Incorporate Engineer'
13 : Neges Nadolig Llawen
14 : Blwyddyn Newydd Dda

Neges gan Steffan



Hoffwn gymryd y cyfle i ddiolch i chi am yr holl waith sydd wedi ei gyflawni drost y flwyddyn olaf. Mae'r flwyddyn olaf wedi mynd heibio yn sydyn iawn ac ar adegau wedi cyflwyno heriau ond gyda'n gilydd yr ydym yn llwyddo. Rwyf hefyd am fanteisio ar y cyfle i rannu dyfyniad gan Kevin Sinfield yn ystod ei Her 7 mewn 7 *"os ydym yn gwneud i bobl ofalu ychydig yn fwy am ei gilydd, yna byddai gennym le llawer gwell i fyw".*

Dymunaf Nadolig Llawen iawn i chi a Blwyddyn Newydd Dda.

Diolch Steffan



YMDDEOLIAD

Ymddeoliad hapus Geoff Doherty.

Mae Geoff Doherty Prif Beiriannydd wedi ymddeol ar ôl 32 blynedd o wasanaeth i Gyngor Sir Gwynedd yn wreiddiol, ac yna YGC.

Dymunai staff YGC ymddeoliad hapus a phob lwc i Geoff.



Ymgynghoriaeth GWYNEDD Consultancy YGC



Mae'r Tîm Datblygu Busnes yma ar eich cyfer chi!

Oes gennych chi brosiectau difyr ar y gweill, angen lluniau cynnydd prosiect, neu rhannu gwybodaeth gyda'r cyhoedd am eich prosiectau?

Mae ein gwasanaeth Dylunio Graffeg ar gael er mwyn darparu gwasanaeth o'r safon uchaf i holl dimau YGC ac i gwrdd â gofynion Cleientiaid.

Mae ein gwasanaethau yn cynnwys:

- Taflenni gwybodaeth a Posteri
- Post Cyfryngau Cymdeithasol / Eitem newyddion
- Tynnu lluniau safon uchel
- Fideos byr gan gynnwys 'time lapse'
- Delweddau
- Tudalen gwefan ar gyfer Prosiect

I anfon gwaith at yr Uned Datblygu Busnes neu weld beth all gynnig i chi, cysylltwch gydag Elgan Jones elganjones@gwynedd.llyw.cymru



PONT I GERDDWYR A SEICLWYR DROS AFON HAFREN Y DRENEWYDD



Camau cynnar paratoi'r safle ar gyfer y bont





Kris Saxton

Prif Beiriannydd

Cleient Cyngor Powys


Powys

Mae gwaith adeiladu wedi dechrau ar bont i gerddwyr a seiclwyr dros **Afon Hafren yn y Drenewydd**.

Bydd y bont, a ariennir gan Lywodraeth Cymru, yn cysylltu llwybr ymyl yr afon â Ffordd y Trallwng yn y Drenewydd gan greu cyswllt teithio llesol diogel rhwng cymunedau, busnesau ac amwynderau bob ochr i'r afon.



Gwaith yn parhau



Model Pont Cerddwyr

PROSIECT DOLGAU A487 CEREDIGION



Lon Dolgau A487



Bedwyr Lloyd Williams

Peiriannydd Prosiect

Cleient -

Cyngor Sir CEREDIGION County Council

Mae'r gwaith o adeiladu llwybr cyd-ddefnyddio newydd rhwng pentrefi Bow Street i'r de a Dole i'r gogledd wedi'i gwblhau ym mis Hydref 2023. Cafwyd ymgyrch ers blynyddoedd maith gan y trigolion yn gofyn am lwybr mwy diogel ar hyd yr A487 brysur i gysylltu'r pentrefi.

Penodwyd Alun Griffiths Contractors Ltd yn gynnar yn 2023 i ymgymryd â'r gwaith Adeiladu. Roedd y gwaith yn cynnwys adeiladu llwybr defnydd a rennir 3.0m o led ar gyfer cerddwyr a beicwyr, creu safle newydd i fws dynnu i mewn, gwelliannau draenio a gwelliannau amgylcheddol ar hyd ymyl ddwyreiniol y ffordd gerbydau bresennol, gan ddilyn yr aliniad llorweddol a fertigol presennol.



Lon Dolgau A487



Lon Dolgau A487



Lon Dolgau A487

Ymgymerwyd â'r canlynol gan YGC:

- Dyluniad Manwl ar gyfer y rhan – yn cynnwys Clirio Safle, Adeiladwaith Hwylustod, Draenio, Ffensio a gosod Giatiau newydd, Wynebu, Arwyddion, a Lluniadau Marciau Ffordd.
- Asesiadau Amgylcheddol gan gynnwys adroddiadau ac arolygon safle.
- Archwiliad Diogelwch Ffyrdd Cam 1/2 (Dyluniad Manwl) ac RSA3 (ar ôl cwblhau'r gwaith adeiladu).
- Chwiliadau cyfleustodau a gwaith diogelu/dargyfeirio. Ymwneud cynnar â Dŵr Cymru i wneud gwaith dargyfeirio yn 2022 cyn adeiladu'r Llwybr Defnydd a Rennir newydd; yn ogystal â thrafodaethau cynnar gyda BT Openreach a Scottish Power i benderfynu ar eu Cwmpas gwaith a gafodd ei gynnwys yn ystod y prif waith.
- Amcangyfrif Cost ar gyfer y Gwaith
- Dogfennaeth Contract a Chaffael y Contractwr trwy Fframwaith Contractwyr Asiantaeth Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru (ACGChC).
- Rheoli Prosiect NEC4 yn ystod Gwaith Adeiladu, gyda Goruchwyliaeth gan Gyngor Ceredigion.


Lon Dolgau A487



Emyr ac Elen gyda Gwobrau TechFest

Rydym yn falch iawn o gyhoeddi fod YGC wedi ennill gwobr TechFest yn y categori Defnydd Gorau o Dechnoleg: Casglu Data Clyfar ar gyfer Rheoli Asedau - Cynllun Atal Llifogydd Ffordd y Traeth Y Felinheli. Mae gwobrau TechFest – sy'n cael eu cynnal gan y New Civil Engineer – yn ddigwyddiad blynyddol i ddathlu cwmnïau ar draws Prydain sy'n arloesi mewn technoleg ym maes peirianneg sifil.

Roedd beirniaid TechFest o'r farn fod y defnydd o dechnoleg i fonitro llifogydd, fel rhan o Gynllun Amddiffyn Rhag Llifogydd Y Felinheli, yn haeddiannol iawn o'r wobr. Fel rhan o'r prosiect, gosododd tîm Dŵr ac Amgylchedd YGC (Robin Perkins, Elen Williamson ac Emyr Gareth) system ddi-wifr, yn defnyddio technoleg LoRaWAN, er mwyn monitro lefel y llanw yn yr Afon Menai. Trwy gymharu y lefel yn Y Felinheli gyda'r offer rhybuddio llifogydd yng Nghaergybi, roedd yn bosib i symleiddio'r broses o benderfynu pryd i gau gatiau llifogydd Y Felinheli – gwaith sy'n cael ei wneud gan dîm o Wardeniaid Llifogydd gwirfoddol.

Rhan hanfodol arall o'r prosiect oedd gwaith tîm Technoleg Gwybodaeth Cyngor Gwynedd (Llŷr Owen Jones ac Elfyn Evans) a sefydlodd system i dderbyn a chofnodi y data o'r synhwyrydd llanw. Mae'r data yma ar gael ar unrhyw adeg o'r dydd a'r nos i Wardeniaid Llifogydd Y Felinheli ac i Swyddogion YGC.

Roedd y beirniaid yn ganmoliaethus o agwedd gymunedol y prosiect ac o'r farn y gellid dyblygu'r gwaith mewn lleoliadau tebyg o amgylch yr arfordir. Mae gwaith wedi cychwyn yn barod i edrych os gall y dechnoleg gael ei ddefnyddio i reoli risg llifogydd yn Porthdinllaen ger Nefyn.



Seremoni Gwobrau TechFest



Seremoni Gwobrau TechFest

GWOBRAU CIHT CYMRU WALES 2023

CIHT Awards





Kerry Evans Rheolwr Gweithredol A55 DBFO

Mae Gwaith Argyfwng Pont Borth wedi ennill dwy Wobr yng Ngwobrau CIHT Cymru Wales a gynhaliwyd yn The Kinmel Spa, Abergele ar y 24ain o Dachwedd 2023. Roedd y categorïau yn cynnwys, Gwobr Iechyd a Lles Alun Griffiths a noddir gan Cambrensis Ltd a 2023 Prosiect Isadeiledd y Flwyddyn.


Dywedodd Kerry Evans – Rheolwr Gweithrediadau DBFO ar yr A55 – "Rwyf mor falch iawn o'r hyn a gyflawnwyd gennym y llynedd a'r gwaith parhaus ar y bont. Mae cael ein cydnabod am ymateb i'r heriau a wynebwyd gennym yn anhygoel, Diolch i'r tîm cyfan am eu gwaith caled".

Rydym yn falch bod ein henwebiad ar gyfer prosiect A55 Abergwyngregyn i Dai'r Meibion wedi cyrraedd y rownd derfynol mewn tair categori sef, Prosiect Isadeiledd y Flwyddyn, Gwobr Iechyd a Lles Alun Griffiths ac Amgylcheddol.



Gareth, Carl, Gareth, Lona, John Rhys a Rhys o dîm YGC yn mynychu'r seremoni

PONT DYFI NEWYDD



Pont Dyfi Newydd

Mae cynllun Tîm Amgylcheddol YGC Pont Dros yr Afon Dyfi wedi cael ei enwebu ar gyfer gwobr 'Outstanding Contributions' Griffiths - Hydref 2023!!

Pob lwc

GRIFFITHS



Pont Dyfi Newydd

PROSIECT CEI ABERDYFI



Agoriad swyddogol Cei Aberdyfi ar ei newydd wedd.

Mae'r gymuned leol yn ne Meirionnydd wedi dod ynghyd i ddathlu cwblhau gwaith strwythurol sylweddol ar ddau adnodd allweddol, sef Cei Aberdyfi a phont droed Bryn Llestair.

Cynhaliwyd agoriad swyddogol y cei a'r bont ddydd Mercher, 15 Tachwedd yn dilyn gwaith sylweddol fydd yn sicrhau y byddant ar gael i'w defnyddio am flynyddoedd i ddod, gan ddod a mwyniant i bobl leol ac ymwelwyr.

Cwblhawyd prosiect gwerth tua £4 miliwn gan Gyngor Gwynedd yn y cei i adnewyddu'r wal bresennol, ail-wynebu a gwella mynediad i fewn ac allan o'r dŵr ar gyfer yr holl ddefnyddwyr. Ariannwyd y cynllun ar y cyd gan Raglen Rheoli Risg Arfordirol Llywodraeth Cymru a Chynllun Rheoli Asedau Cyngor Gwynedd.

Er fod y gwaith ar bont Bryn Llestair yn y dref wedi ei gwblhau ers oddeutu blwyddyn, manteisiwyd ar y cyfle i ddathlu codi pont newydd sbon i gymryd lle yr hen strwythur oedd wedi bod ar gau ers rhai blynyddoedd oherwydd ei chyflwr gwael a pheryglus.



Aelod Lleol Cyngor Gwynedd - Dewi Owen



Agoriad swyddogol Cei Aberdyfi

Cwblhawyd prosiect gwerth tua £4 miliwn gan Gyngor Gwynedd yn y cei i adnewyddu'r wal bresennol, ail-wynebu a gwella mynediad i fewn ac allan o'r dŵr ar gyfer yr holl ddefnyddwyr. Ariannwyd y cynllun ar y cyd gan Raglen Rheoli Risg Arfordirol Llywodraeth Cymru a Chynllun Rheoli Asedau Cyngor Gwynedd.

Er fod y gwaith ar bont Bryn Llestair yn y dref wedi ei gwblhau ers oddeutu blwyddyn, manteisiwyd ar y cyfle i ddathlu codi pont newydd sbon i gymryd lle yr hen strwythur oedd wedi bod ar gau ers rhai blynyddoedd oherwydd ei chyflwr gwael a pheryglus.



Agoriad swyddogol Pont Bryn Llestair

Mae'r bont – sy'n cael ei hadnabod gan rai yn lleol fel pont Ynys Picnic – yn croesi rheilffordd y Cambrian ac yn cysylltu Aberdyfi â'r bryniau cyfagos.

Dywedodd y Cynghorydd Berwyn Jones, Aelod Cabinet Cyngor Gwynedd sy'n gyfrifol am Wasanaeth Ymgynghoriaeth Gwynedd, oedd yn arwain y gwaith ar y ddau brosiect yma yn Aberdyfi:

"Mae'r lanfa yn y Cei yn hollbwysig i nifer fawr o weithgareddau'r harbwr sy'n cyfrannu'n sylweddol at economi leol Aberdyfi. Mae'r cynllun wedi bod yn cael ei ddatblygu ers rhai blynyddoedd ac rwy'n falch o ddweud fod y gwaith bellach wedi ei gwblhau er budd yr holl ddefnyddwyr.



Pont Bryn Llestair



Pont Bryn Llestair

"Roeddwn hefyd yn falch o weld Pont Bryn Llestair ar ei newydd wedd, a dwi'n gobeithio bydd pobl yn manteisio arni er mwyn cael mynd am dro a mwynhau'r ardal brydferth hon."

Ychwanegodd Gweinidog Newid Hinsawdd Llywodraeth Cymru, Julie James: "Wrth i ni fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd, rwy'n falch o fod yn darparu 85% o'r cyllid ar gyfer y gwaith hwn yng Nghei Aberdyfi i Gyngor Gwynedd drwy ein Rhaglen Rheoli Perygl Arfordirol.

"Rhaid i gymunedau arfordirol addasu i lefel y môr yn codi a bydd y cynllun hwn yn helpu i wneud yn union hynny, drwy wella'r amddiffyniad rhag llifogydd ac erydu arfordirol i 20 eiddo yn Aberdyfi.

"Bydd y gwaith hefyd yn darparu buddion ehangach trwy warchod y lanfa, sydd, rwy'n gwybod, yn hollbwysig i'r economi leol."

LLWYDDIANT - GARETH WHITTEN 'ENGIEERING COUNCIL - INCORPORATE ENGINEER'

Beth wnaeth ti geisio am y cymhwyster?

Mae'n bwysig iawn i mi bod fy ngyrfa'n datblygu, ar ôl cwblhau gradd y cam nesaf oedd cael cydnabyddiaeth broffesiynol.

Beth sydd angen ei wneud er mwyn cofrestru/ rhoi cais llwyddiannus?

Y cam gyntaf ydi cysylltu gyda ein rheolwr hyfforddiant (John Rhys Jones) am drafodaeth pa ffordd yw'r gorau i gael eich cymhwyster proffesiynol. Yna, ymuno gyda corff aelodaeth proffesiynol. Mae yna ddau llwybr i ddewis i gael eich cymhwyster proffesiynol

- **Llwybr Cymwysterau Cydnabod**
- **Llwybr Asesu Unigol**

Gan bod genna'i radd y llwybr gorau i mi oedd cymwysterau cydnabod. Roedd hyn yn golygu bod rhaid mi lenwi'r ffurflen gais i ddangos fy mhrofiad peirianneg yn erbyn datganiadau cymhwysedd ac ymrwymiad a osodwyd gan y Cyngor Peirianneg.

Ar ôl cyflwyno'r cais roedd rhaid mi wneud cyflwyniad i'r adolygwyr, ac ateb ychydig o gwestiynau am fyng nghais.



John Rhys ac Gareth Whitten

Sut y bydd hyn yn gwella ac yn helpu eich gyrfa?

Dwi'n gobeithio fydd y cymhwyster proffesiynol IEng yn galluogi i mi symud ymlaen gyda fy ngyrfa, a fydd hyn yn golygu mwy o brofiad a chyfrifoldebau. Bydd IEng yn dangos i'r Client allanol fy mod i'n brofiadol ag yn gymwys, gan obeithio fydd yn golygu fmwy o waith i YGC. Felly mae cael cymhwyster proffesiynol yn fantais i mi ag i YGC.

Gwybodaeth am y daith/ broses i gael y cymhwyster

Wrth edrych yn ôl ar fy nhaith i gael fy IEng, yr unig beth dw i'n difaru ydi bod fi heb osod dyddiad targed i mi orffen y cais. Roeddwn wedi cwblhau llenwi y cais yn y mis cyntaf o ddechrau, ond nes i ddim ail ddechrau edrych ar y cais am 2 flynedd wedyn. Felly dw i'n argymell i unrhyw un sydd am wneud ei cymhwyster proffesiynol i rhoid dyddiad targed i gwblhau'r cais.

Ar ôl cwblhau nghais, y cam nesaf oedd wneud 3 cyfweliad ffug gyda John Rhys, Dave Meller, John Chapman a Dylan Roberts. Roedd fy nghyflwyniad 20 munud am fy mhrofiad cynllunio ffordd osgoi Llanbedr a fy mhrofiad rheoli prosiect cynllun Gwelliannau Draenio Dolwyddelan. Roedd yr adborth a gefais yn y cyfweliad ffug yn defnyddiol iawn i mi, i wella fy nghais a gwneud mi deimlo'n fwy hyderus am fy nghyflwyniad.

Nes i gyflwyno fy nghais i'r IHE a cefais fy adolygiad proffesiynol tros MS Teams. Cefais ddau adolygydd yn fy adolygiad proffesiynol. Ar ôl fy nghyflwyniad cefais ychydig o cwestiynau am fy nghyflwyniad/ cais. Gan fy mod wedi paratoi yn dda, roeddwn yn teimlo bod yr adolygiad proffesiynol wedi mynd yn hwylus.



John Rhys
Prif Beiriannydd

Mae wedi bod yn fraint i mi ac aelodau eraill o staff YGC gynorthwyo Gareth ar ei daith i ennill ei gymhwyster proffesiynol IEng. Roedd agwedd Gareth at ddysgu a gweithredu ar ein hadborth, i'w adroddiad a'i adolygiadau ffug, yn ardderchog ac mae canlyniad ei adolygiad yn adlewyrchu hyn. Llongyfarchiadau i ti Gareth.

Mae YGC yn gweinyddu Cynllun Hyfforddi Gymeradwy Cwmnïau (CATS) - Cynghorau Gogledd Cymru ar rhan yr ICE, ac mae cefnogaeth i'w gael i ddilyn cymhwyster proffesiynol megis Eng Tech, IEng a CEng gyda sefydliadau peirianyddol eraill, yn ddibynnol ar eich arbenigedd, megis y CIHT, yr IHE a'r IStrucE. Mae amryw o SCEs (Supervising Civil Engineers)ymhlith staff YGC yn fwy na pharod i gynnig cymorth a chefnogaeth i holl staff Priffyrdd, Peirianneg ac YGC. Yn ddiweddar bu newid yn y drefn adolygu ac mae adolygiadau wyneb yn wyneb bellach yn opsiwn ynghyd ag adolygiadau dros TEAMS.

I rai staff sy'n gweithio mewn meysydd eraill o waith o'r Adran, mae cyfleoedd a chefnogaeth ar gael hefyd i ennill cymhwyster proffesiynol trwy sefydliadau perthnasol megis, RICS, CIWEM, CIEEM, IEMA ac ati, ac rwy'n annog staff i gysylltu â'u Rheolwr Gwasanaeth cychwyn os oes diddordeb.



Cai gyda'i dystysgrif EngTech MICE

LLWYDDIANT - CAI NEWELL JONES 'ENGTECH MICE

"Mae ICE yn sefydliad a gydnabyddir yn fyd-eang ac mae'n fraint i mi fod yn aelod ohono.

Drwy gael mynediad at adnoddau a gallu ymuno mewn digwyddiadau sy'n rhaeadru gwybodaeth am ddatblygiadau a'r newyddion diweddaraf, mae'r aelodaeth yn fy helpu i wella fy sgiliau ac yn fy ngalluogi i gasglu'r wybodaeth ddiweddaraf am beirianneg sifil.

Mae fy nghofrestriad fel EngTech MICE hefyd yn galluogi eraill i gydnabod fy nghyfrifoldebau, fy sgiliau technegol a'r cyfraniad rwy'n ei gynnig i'm swydd."

Llongyfarchiadau i bawb sydd wedi ymgeisio am gymhwyster proffesiynol!!

OES GENNYCH CHI FYWYD DIFYR?

Mae storiâu personol yn un o'r prif eitemau y mae staff yn ei fwynhau darllen yn y Bwletin!

Gallwch son am...

- **Diddordebau**
- **Gwaith Gwirfoddol / Elusennol**
- **Taith Gerdded**
- **Gwyliau Gwahanol**
- **Codi Ymwybyddiaeth**

Cysylltwch gyda Siôn neu Elliw i drafod unrhyw syniadau





AM DRO!

Cadwch eich llygad allan am gyfres newydd o raglen 'Am Dro' yn y Flwyddyn Newydd lle bydd Bethan Moseley, ein Swyddog Technegol Amgylchedd (Ecoleg) yn cymryd rhan.

POB LWC!!



YGC

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda!

Diolch i chi gyd am eich gwaith caled dros y flwyddyn, edrychwn ymlaen at eich gweld yn y flwyddyn Newydd!



















BLWYDDYN LWYDDIANNUS ARALL!
WELWN I CHI GYD YN 2024

















